Ei SMART

A better start for high - risk infants

Dechrau gwell i fabanod

Synhwyraidd | Echddygol | Sylw/Rheolaeth | Cydberthnasau | Gyda'ch gilydd

## Helpu fy mhlentyn i ddysgu drwy chwarae: 12 i 24 mis oed

Visit our website www.eismart.co.uk @EISmart @EI_Smart

# Chwarae dychmygol ac archwiliadol

| Syniad Chwarae | Sut mae'n helpu fy mabi? |
|---|---|

### Chwarae Creadigol





**Helpu fy mhlentyn i ddysgu drwy ddynwared**

- Annog y defnydd o deganau/gwrthrychau sy'n dynwared gweithgarwch oedolion (sosbenni, sugnwyr llwch, brwshis ac ati)
- Gwahodd eich plentyn i 'helpu' â thasgau yn y cartref
- Dynwared gweithredoedd eich plentyn, a pharhau i chwarae drwy ychwanegu camau eraill (bwydo doliau, esgus yfed)
- Chwarae gemau gwisgo gyda hetiau, esgidiau ac ati.
- Ychwanegu geiriau disgrifiadol: "rwyt ti'n rhoi cinio i'r tedi! Mae tedi eisiau bwyd" "rwyt ti mor garedig"


### Didoli Siapiau



### Blociau Mawr



### Posau Gosod



**Helpu fy mhlentyn i ddysgu drwy archwilio**

- Hwyluso trin gwrthrychau, eu troi o gwmpas
- Annog y plentyn i ddatrys problemau a chanolbwyntio
- Helpu cydsymud rhwng y dwylo a'r llygaid
- Ysgogi canfyddiad gweledol (copïo strwythur fel trên neu bont)
- Chwarae er mwyn adnabod a chyfateb lluniau Noder: I'w gwneud hi'n haws, dangoswch sut i wneud hyn.

### Creonau



**Helpu fy mhlentyn i ddysgu drwy ddefnyddio ei ddwylo**

- Paentio neu wneud marciau â chreonau.
- Mae'n helpu i ddatblygu cryfder a rheolaeth o'r bysedd.
- Dyma ddechrau ffafriaeth llaw.


### Llyfrau



**Rhoi hwb i iaith fy mhlentyn**

- Pwyntio ac enwi lluniau mewn llyfrau
- Trafod y stori wrth ddarllen
- Annog y plentyn i ddynwared gweithredoedd o'r stori (e.e. neidio fel y broga yn y llyfr, cyfarth fel y ci)
- Annog y plentyn i afael yn y llyfr a throi'r tudalennau Noder: Plant ifanc.

### Pêl-droed



### Teganau gwthio a thynnu



### Dringo



**Helpu fy mhlentyn i feithrin sgiliau corfforol**

- Defnyddio cerddwr sydd â phwysau ar y blaen i annog y plentyn a'i helpu i ymarfer cerdded.
- Chwarae pêl-droed i ddatblygu cydbwysedd, cydsymud a chicio.
- Darparu clustogau neu stepiau bach a diogel i'w dringo dan eich goruchwyliaeth i ddatblygu cryfder a chydsymud.

**Wyddech chi?** Bydd plant ifanc o'r oedran yma yn dynwared y byd o'u cwmpas. Maent yn dysgu drwy eu profiadau yn eu hamgylchedd; er enghraifft, bwydo eu hunain. Mae darllen straeon ac enwi gwrthrychau yn ffordd wych o feithrin eu sgiliau iaith.

Drwy chwarae y bydd plentyn yn dysgu. Crëwyd y daflen hon i gynnig syniadau ar gyfer gweithgareddau a all helpu i feithrin sgiliau iaith, gwybyddol ac echddygol. Nid yw'r ffocws ar frandiau penodol o deganau ac nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Mae datblygiad yn amrywio o blentyn i blentyn ac os oes gennych unrhyw bryderon am eich plentyn, siaradwch â'ch meddyg teulu neu eich ymwelydd iechyd.

*© 2022 Ei SMART* *Diolch i Cerebral Palsy Cymru am ariannu cyfieithiad Cymraeg a hefyd i Angharad Smiriglia, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda*

CEREBRAL PALSY CYMRU

A better start for high - risk infants

Dechrau gwell i fabanod

Synhwyraidd | Echddygol | Sylw/Rheolaeth | Cydberthnasau | Gyda'ch gilydd

**Awgrymiadau ar sut i gael babanod 12 i 24 mis oed i ymgysylltu'n well wrth chwarae:**

Visit our website www.eismart.co.uk @EISmart @EI_Smart

## Sgiliau adeiladu

### Dysgu i gyd-chwarae



Anogwch eich plentyn i dreulio amser â phlant eraill. Gadewch i'ch plentyn archwilio ar ei ben ei hun dan oruchwyliaeth.

### Annog sgiliau bob dydd



Anogwch eich plentyn i ddefnyddio llwy, ac i yfed o gwpan er mwyn ei annog i fwydo ei hun yn annibynnol. Gadewch i'ch plentyn helpu wrth iddo wisgo a dadwisgo.


### Iaith: sgwrsio â'ch plentyn



Mae rhieni sy'n siarad mwy â'u plant yn eu helpu i ddatblygu geirfa fwy eang a strwythurau brawddegau mwy datblygedig.

## Cofiwch bwysigrwydd ...

### Chwarae Creadigol



Gadewch i'ch plentyn chwarae â blociau, chwarae cegin, blychau, doliau, tedis, ceir a threnau. Anogwch eich plentyn i chwarae tŷ, meddyg neu de parti dychmygol.

### Chwarae drwy Ddynwared



Wrth chwarae â'ch plentyn, dynwaredwch ei weithredoedd ac ychwanegwch elfennau diddorol fel gwahodd eich plentyn i wneud gweithgarwch newydd â'r gwrthrychau e.e. defnyddio napcyn fel blanced


### Twf Cymdeithasol ac Emosiynol



eich plentyn yn dysgu i fod yn fwy annibynnol a "Na" yw ei hoff air newydd.

## Cadw eich babi yn ddiogel...

### Bod yno i'ch plentyn




Byddwch wrth law pan fydd yn chwarae ac yn archwilio. Rhowch hyder i'ch plentyn roi cynnig ar bethau newydd ac adeiladu annibyniaeth

### Diogelwch yn y cartref



Cadwch gemegion y cartref a meddyginiaethau allan o'i gyrraedd. Cadwch eitemau peryglus dan glo. Mae goruchwyliaeth yn hanfodol ar yr oedran hwn.

### Parhau i osgoi amser sgrin



Mae rhai astudiaethau'n dangos na all plant sy'n gwylio'r teledu neu'n cael gormod o amser sgrin ganolbwyntio cystal ac nad yw eu hiaith yn datblygu cystal.

**Wyddech chi?** Mae gan blant o'r oedran hwn lawer o egni ac nid ydynt yn ofni llawer felly mae angen eu goruchwylio'n agos. Mae angen iddynt ddysgu am ddiogelwch a chael ffiniau.

Drwy chwarae y bydd plentyn yn dysgu. Crëwyd y daflen hon i gynnig syniadau ar gyfer gweithgareddau a all helpu i feithrin sgiliau iaith, gwybyddol ac echddygol. Nid yw'r ffocws ar frandiau penodol o deganau ac nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr. Mae datblygiad yn amrywio o blentyn i blentyn ac os oes gennych unrhyw bryderon am eich plentyn, siaradwch â'ch meddyg teulu neu eich ymwelydd iechyd.

*© 2022 Ei SMART* *Diolch i Cerebral Palsy Cymru am ariannu cyfieithiad Cymraeg a hefyd i Angharad Smiriglia, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda*